Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

5 Awst 2015

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar  23 Gorffennaf, sef:

> *Hoffwn wneud cais am y wybodaeth a ganlyn o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.*
>
> *Sawl gwaith y mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi ymddangos gerbron un o bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol i egluro canlyniadau ymchwiliad yn ystod y 5 mlynedd diwethaf?*
>
> *Gofynnaf ichi rannu'r ateb yn dri chategori, os oes modd.*
>
> *a) Gofal Iechyd Sylfaenol*
> *b) Gofal Iechyd Eilaidd*
> *c) Arall hy plismona, cynghorau etc.*

Nid oes unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi'n ymwneud â chanlyniadau ymchwiliadau penodol. Fodd bynnag, bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymddangos gerbron pwyllgorau Cynulliad amrywiol i gyflwyno'i adroddiad blynyddol, ei amcangyfrif o wariant blynyddol ac, yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid yn ddiweddar, i drafod ei bwerau estynedig.

Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2014, pan drafodwyd Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2013-14, cyfeiriwyd at nifer gynyddol yr ymholiadau a'r cwynion a gafwyd.  Fodd bynnag, dim ond yr agweddau ariannol a drafodwyd, yn hytrach nag achosion penodol.


Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Buddug.Saer@Cynulliad.Cymru Buddug.Saer@Assembly.Wales


**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF